# Teitl y Rôl: Prentis Technegol (Pwyslais ar Lwyfan)

## **Lleolir yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth** (12-Mis) (cytundeb tymor sefydlog)

**Cyflog:** £13,741 (35 awr yr wythnos)
**Dyddiad Cau:** 9 Gorffennaf
**Dyddiad Cyfweliad:** 13 Awst
**Dyddiad Dechrau:** 6 Hydref 2025 - Wythnos Sefydlu

I gyflwyno cais am y rôl hon ac am ragor o wybodaeth, ymwelwch â: Careers and jobs | Wales Millennium Centre (wmc.org.uk)

**Rôl a Chyfrifoldebau:**

Prif amcan y rôl hon yw datblygu sgiliau arbenigol a throsglwyddadwy, o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith mewn meysydd penodol i gynyrchiadau a phrosiectau byw ar gyfer y rhai sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd technegol. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar feysydd sy'n ymwneud â Chrefft Llwyfan, ymarfer Sain a Goleuo - gyda chyfle i archwilio adrannau eraill gan gynnwys Rheoli Llwyfan a Gwisgoedd.

Mae llawer o lwyddiant Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, a'i gallu i ddenu ymweliadau dro ar ôl tro gan artistiaid a chwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol, yn dibynnu ar ansawdd ac ymatebolrwydd ei gwasanaethau technegol. Nod Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw bod yn lleoliad dewis cyntaf i gyflwynwyr digwyddiadau a pherfformiadau.

Disgwylir i ddeiliad y swydd gwblhau gwaith cwrs, asesiadau a modiwlau hyfforddi fel rhan o'u diwrnod gwaith, er mwyn ennill eu cymhwyster Lefel 3. Dylai ymgeiswyr fod â Gradd C neu uwch ar lefel TGAU mewn TG, Mathemateg a Saesneg.

Mae ceisiadau ar agor i ymgeiswyr 16 oed+ (gyda blaenoriaeth i'r rhai rhwng 18 a 30 oed).

O ddydd i ddydd byddwch yn adrodd i Reolwr Technegol a Chynhyrchu'r Ganolfan, sy'n goruchwylio'r rhaglen brentisiaeth i sicrhau bod unigolion yn cyrraedd eu targedau ymarferol ac asesiad. Maent hefyd yn gyfrifol am eich amserlen hyfforddi broffesiynol a fydd yn cynnwys teithiau i ffwrdd o'r ganolfan.

Dros y 12 mis, byddwch yn cwblhau sawl gweithdy a thystysgrif hyfforddi proffesiynol fel Gwobr Efydd ABTT, Profi PAT a chymhwyster CRISP IOSH i enwi ond ychydig. Efallai y byddwch hefyd yn mynychu sioe fasnach yn y Gwanwyn/Haf. Er bod hyn yn amodol ar amserlenni hyfforddi, dylai ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl gweithio ar gynyrchiadau gan gynnwys cynyrchiadau mewnol, digwyddiadau byw a chynadleddau.

**Gofynion Allweddol:**

Bydd angen i ymgeiswyr fod ar gael i ddechrau ar Hydref 6ed ar gyfer yr Wythnos Sefydlu.

Mae oriau gwaith prentis yn amrywio ychydig o wythnos i wythnos, mae'n dibynnu'n fawr ar ofynion y cynhyrchiad y maent yn gweithio arno. Rhaid i ni bwysleisio nad rôl 9-5 yw hon, felly 'rydym yn annog ymgeiswyr i feddwl yn ofalus a yw'r math hwn o waith yn addas iddynt. 'Rydym hefyd yn eich annog i feddwl am eich trefniadau teithio ac ystyried a yw'n ymarferol/hwylus i chi ar hyn o bryd.

Mae'r meini prawf y byddwch yn cael eich gwerthuso arnynt yn gymharol hyblyg. Fodd bynnag, 'rydym yn disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth o'ch dealltwriaeth o theatr dechnegol y tu ôl i'r llwyfan a pha feysydd penodol sydd o ddiddordeb i chi a pham. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu dysgu neu arddangos sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da, gan y byddwch yn gweithio o fewn sefydliad mawr gyda phobl o wahanol gefndiroedd, safbwyntiau ac hunaniaethau.

Yn olaf, dylech ddangos tystiolaeth o agwedd dda a pharodrwydd tuag at weithio'n broffesiynol, dysgu sgiliau newydd, a datblygu gwaith cwrs.

| # | Meini prawf | Hanfodol/Dymunol – noder |
|---|---|---|
| 1 | Diddordeb mewn theatr gydag uchelgais i weithio yn y diwydiant theatr dechnegol | E |
| 2 | Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o Iechyd a Diogelwch - unai'n gyffredinol neu'n benodol i'r theatr | E |
| 3 | Profiad blaenorol y gellir ei ddangos o sgiliau rhyngbersonol a gweithio mewn tîm tra'n gweithio o fewn sefydliad mawr gydag unigolion o gefndiroedd, safbwyntiau ac hunaniaethau gwahanol. | E |
| 4 | Yn dangos hunangymhelliant cryf i ymgysylltu â dysgu academaidd, gan gynnwys parodrwydd a gallu i gwblhau gwaith cwrs, asesiadau a modiwlau hyfforddi o fewn terfynau amser. | E |
| 5 | Profiad blaenorol y gellir ei ddangos o weithio i derfynau amser yn ymarferol ac yn ddamcaniaethol. | E |

## A ydych yn rhannu ein gwerthoedd?

*Mae ein gwerthoedd yn rhan o bwy yr ydym, yr hyn yr ydym yn sefyll drosto a sut yr ydym yn gweithredu. Ydych chi'n rhannu'r gwerthoedd hyn?*

**Myfyriol** - 'Rydym yn cydnabod ac yn dathlu bod pethau gwych yn cael eu cyflawni bob dydd ac 'rydym yn ystyried ei bod yn gryfder i ddysgu o'n profiadau.

**Atebol** - Mewn diwylliant sy'n ein galluogi i gyflawni ein potensial, rhaid i ni fod yn gyfrifol am ein gweithredoedd ein hunain ac am weithredoedd y Ganolfan.

**Cydweithredol** - 'Rydym yn un tîm yn gweithio gyda'n gilydd, gan barchu sgiliau a phrofiadau ein gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau.

**Uchelgeisiol** - 'Rydym yn cefnogi angerdd ac yn annog gwneud penderfyniadau beiddgar i yrru ein hawydd i wella'n gyson

**Arloesol** - 'Rydym yn chwilio am atebion dyfeisgar ym mhob agwedd o'n gwaith er mwyn ein galluogi i gyflawni'n nodau

**Beth yw'r manteision i chi?**

Bydd y contract ar gyfer y rôl hon gyda Chanolfan Mileniwm Cymru sy'n rheoli'r cynllun ledled Cymru. Trwyddynt byddwch yn derbyn:

- Hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc
- Pensiwn a gyfrennir gan y cwmni o 8% (am eich cyfraniad o 3%)
- Amodau da ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, a gofal rhieni a rennir (yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth)
- Cynllun iechyd: Arian tuag at ofal deintyddol ac optegol a thriniaethau cyflenwol fel triniaethau ceiropracteg, osteopathig ac aciwbigo
- Cymorth Meddygol sy'n cynnwys mynediad o bell at sesiynau Meddyg Teulu, cwnsela, a ffisiotherapi
- Rhaglenni cymorth i staff sy'n cynnwys mynediad at wasanaethau cymorth ar gyfer materion cyfreithiol, ariannol, a theuluol
- Yswiriant Bywyd o 4x y cyflog blynyddol
- Cyfle i geisio am docynnau i gynyrchiadau
- CLWB - Ein grŵp cymdeithasol i weithwyr
- NEWID - ein grŵp rhwydweithio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant sy'n cyfarfod yn fisol i drafod syniadau newydd a chyfleoedd hyfforddi i wella pob agwedd ar gyflogaeth yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.
- Mynediad am ddim i ddysgu Cymraeg ar-lein

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE